# Prifysgol Bangor

## Adolygiad Sefydliadol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Mai 2012

# Cynnwys

**Yr adolygiad yma** ........ **1**

**Canfyddiadau allweddol** ........ **2**

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Bangor ........ 2

Argymhellion ........ 2

Nodweddion o arfer da ........ 3

**Canfyddiadau manwl am Brifysgol Bangor** ........ **4**

**1 Fframwaith Rheoli Academaidd** ........ **4**

Y Senedd, colegau ac ysgolion ........ 4
Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol a'i grwpiau tasg ........ 4
Atebolrwydd ysgolion a cholegau ........ 5
Seilwaith Academaidd ........ 6

**2 Safonau academaidd** ........ **6**

Cymeradwyo rhaglenni, modiwlau a chyrsiau ........ 6
Adolygiad blynyddol ........ 7
Adolygiad cyfnodol ........ 7
Arholi allanol ........ 8
Asesu ........ 8
Gwybodaeth rheoli

# Canfyddiadau allweddol

Bu tîm adolygu ASA yn ystyried swm mawr o dystiolaeth yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysgol ym Mhrifysgol Bangor, sef gwybodaeth a ddarparwyd o flaen llaw a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau'r adolygiad ei hun. Mae'r adolygiad wedi galluogi tîm adolygu ASA i ffurfio dwy feirniadaeth am y Brifysgol.

## Beirniadaethau ASA am Brifysgol Bangor

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor.

Gellir teimlo

ystyried cyflwyno gwerthusiad systematig o'i darpariaeth o gymorth academaidd (paragraff 5.4).

## Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y **nodweddion o arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Bangor.

Gwaith Canolfan Dyslecsia Miles, lle mae ymchwil wedi gwella'r ddarpariaeth cymorth ar draws y Brifysgol a thu hwnt (paragraff 3.2.5).
Y Cynllun Arweinwyr Cyfoed, sy'n rhoi cyflwyniad rhagorol i fywyd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor (paragraff 3.4.5).
Gwaith Canolfan Bedwyr i wella'r ddarpariaeth Gymraeg (paragraff 5.3).

bod yn cael eu dewis ar sail eu harbenigedd, a chadarnhaodd y staff uwch nad oes darpariaeth ffurfiol ar gyfer ethol aelodau o staff i'r Senedd a'i phwyllgorau. Sylwodd y tîm hefyd bod swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli myfyrwyr ar bwyllgorau a grwpiau'r Brifysgol; ond hysbyswyd y tîm gan fyfyrwyr nad yw'r ysgolion i gyd yn cwrdd â

## 4.2 Rheoli darpariaeth gydweithredol

4.2.1 Cafwyd rhywfaint o resymoli partneriaethau'r Brifysgol yn dilyn yr Archwiliad Ansawdd Mewnol yn 2009, yn cynnwys terfynu nifer o bartneriaethau ym maes diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol. Roedd yr adolygiad yma'n gymeradwy am ei ddefnydd trwyadl o'r *Cod Ymarfer*. Mae'r partneriaethau yn y rhanbarth wedi'u gyrru, i raddfa fawr, gan fentrau Llywodraeth Cymru. Mae datblygiad partneriaethau tramor y Brifysgol yn y dyfodol i gael ei arwain gan ei Strategaeth Addysg Ryngwladol a gymeradwywyd yn ddiweddar, sy'n cynnig datblygu darpariaeth drawswladol drwy naill ai fodel dilysu neu fasnachfraint, negodi parhaus y trefniadau trosglwyddo a threfniadau gradd ddwbl, a chreu Swyddfa Datblygu Partneriaethau Rhyngwladol.

4.2.2 Daeth y tîm i'r casgliad bod y Pwyllgor Gweithredu'n cymryd camau priodol i sicrhau bod y portffolio o ddarpariaeth gydweithredol wedi'i ddatblygu mewn ffordd strategol ac y bydd trefniadau effeithiol yn eu lle i reoli partneriaethau. Yn ei drafodaethau gyda staff, fodd bynnag,

sefydliadau partner.

4.3.3

y byddai'n **fanteisiol** annog y Brifysgol i ystyried cyflwyno gwerthusiad systematig o'i darpariaeth o gymorth academaidd.

## Casgliad

5.5 Yn amodol ar sylwadau'r tîm adolygu uchod, canfuwyd bod y Brifysgol yn prysur ymgysylltu â'r adrannau a'r cyfadrannau yn y broses o weithredu ei hagenda i wella profiad y myfyrwyr. Ar sail y dystiolaeth yma, nododd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi llwyddo i

threfniadau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r amgylchedd ymchwil a phrofiad ymchwil ôl-raddedig yn cyflawni disgwyliadau'r Cod Ansawdd. Nododd y tîm waith Canolfan Bedwyr (gwelwch baragraff 5.3) ar lefelau ôl-raddedig ac israddedig a'r cynllun llysgennad sydd wedi'i seilio ar y cynllun Arweinwyr Cyfoed (gwelwch baragraff 3.4.5) sydd wedi'u henwi'n barod fel **nodweddion o arfer da**.

## 7 Gwybodaeth gyhoeddus

7.1 Canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i wirio cywirdeb yr wybodaeth gyhoeddedig (a gwybodaeth gyhoeddedig ei phartneriaid cydweithredol). Mae'r myfyrwyr i gyd yn derbyn llawlyfr myfyrwyr, sy'n darparu'r wybodaeth hanfodol, ond nododd y tîm bod anghysondeb ar draws y colegau a'r ysgolion yn yr ystod gyfan o wybodaeth a ddosberthir. Er enghraifft, nid yw rhai llawlyfrau myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth am farcio dienw, y system cynrychiolaeth myfyrwyr neu'r meini prawf marcio. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyson yn llawlyfrau'r myfyrwyr.

7.2 Yn yr un modd, nododd y tîm anghysonderau yn yr wybodaeth a ddarperir ar dudalennau gwe'r Brifysgol yn cynnwys y rheiny sy'n hysbysebu cyrsiau ac ysgolion i ddarpar fyfyrwyr. Er bod gan lawer o'r wybodaeth gyfeiriadau clir, mae rhai'n cyfeirio at dystiolaeth sy'n amherthnasol ac wedi mynd yn hen. Mewn rhai achosion, nid oes cyfeiriad yn yr wybodaeth bob amser ar bob tudalen gwe berthnasol a gallai hyn fod yn gamarweiniol i ddarpar fyfyrwyr. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol**

# Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym at dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan nifer o dermau 'ddiffiniadau gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Cymru, sydd ar gael ar ein gwefan ar:

**gwybodaeth gyhoeddus** Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

**manylebau rhaglen** Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r **rhaglenni astudio**, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

**meini prawf asesu** Y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae marcwyr yn disgwyl i fyfyriwr eu dangos mewn tasg asesu, ac a gymerir i ystyriaeth wrth farcio'r gwaith. Mae'r meini prawf hyn wedi'u seilio ar y canlyniadau dysgu a fwriedir.

**modiwl** Uned astudio hunangynhwysol, wedi'i strwythuro'n ffurfiol, gyda chyfres eglur a rhesymegol o **ganlyniadau dysgu** a **meini prawf asesu**. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio'r gair '**cwrs**' i gyfeirio at fodiwlau unigol.

**nodwedd o arfer da** Agwedd gadarnhaol o'r ffordd y mae sefydliad addysg uwch yn rheoli ansawdd a safonau, y gellid eu gweld fel esiamplau rhagorol i bobl eraill.

**rhaglen (astudio)** Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

**rheoliadau asesu** Y rheoliadau sy'n llywio asesiad o raglen astudio, gan gynnwys y cynllun marcio, y marc pasio, y gofynion ar gyfer symud ymlaen i lefelau neu gamau dilynol rhaglen a'r gofynion dyfarnu a dosbarthu (er enghraifft, credydau sydd i gael eu cyflawni a marciau penodol sydd i gael eu hennill).

**safon academaidd trothwy** Y safon ofynnol y dylai myfyriwr ei chyrraedd er mwyn ennill cymhwyster neu ddyfarniad penodol, fel y mae wedi'i disgrifio yn y **datganiadau meincnod pwnc** a'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Mae safonau trothwy'n wahanol i safonau perfformiad y mae angen i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn ennill unrhyw ddosbarth penodol o ddyfarniad, er enghraifft gradd baglor o'r radd flaenaf. Gweler hefyd **safon academaidd**.

**safonau academaidd** Y safonau a osodir gan sefydliadau ac a gynhelir ganddynt ar gyfer eu cyrsiau a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

**safoni** Proses a sefydlwyd i sicrhau bod canlyniad asesiad yn deg a dibynadwy a bod meini prawf asesu wedi'u gweithredu'n gyson.

**Seilwy**

**RG 964 10/12**

**Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch**

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebost comms@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2012

ISBN 978 1 84979 616 3

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk.

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786